Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru
Low Vision Service Wales

Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru

Os oes gennych nam ar eich golwg, gallwn eich helpu i wneud y gorau o'ch golwg.

01267 248793

www.eyecare.wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES

Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru
Low Vision Service Wales

Cymorth i oedolion a phlant â golwg gwan sy'n byw yng Nghymru

Gall Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru ddarparu cymhorthion golwg arbenigol, chwyddwydrau, lampau a chyngor i'r rheiny sy'n cael anhawster gweld yn glir wrth ddefnyddio sbectol neu lensys cyffwrdd ar brescripsiwn, a hynny yn rhad ac am ddim.

Mae optegwyr Golwg Gwan achrededig yn darparu'r gwasanaeth hwn gan y GIG yn rhad ac am ddim yn eich cymuned.

Gallant hefyd eich cyfeirio at gymorth pellach gan wasanaethau'r Awdurdod Lleol, eich Meddyg Teulu, Fferyllydd, Grwpiau Cymorth Gwirfoddol, ac adnoddau eraill yn eich ardal.

Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru
Low Vision Service Wales

Sut y mae cael asesiad?

Mae'n rhaid eich bod yn byw yng Nghymru a'ch bod wedi cael prawf golwg yn ddiweddar (neu'n barod i gael un).

Gallwch gael eich atgyfeirio gan unrhyw un o'r canlynol:

- Chi eich hun, eich teulu neu eich ffrindiau
- Eich Optometrydd/Optegydd eich hun
- Meddyg Teulu neu Fferyllydd
- Gwasanaethau'r Awdurdod Lleol
- Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbyty
- Gwasanaethau Cymunedol
- Darparwyr Addysg
- Grwpiau gwirfoddol

Fel arfer, mae'r Asesiad Golwg Gwan yn cael ei ddarparu mewn practis optegwyr, ond mewn rhai achosion, gall gael ei gynnal yn eich cartref eich hun.

Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru
Low Vision Service Wales

Beth y gallaf ei ddisgwyl?

Apwyntiad sy'n para hyd at awr gydag optegydd Golwg Gwan achrededig, a fydd yn:

Trafod yr anawsterau y mae'r nam ar eich golwg yn eu hachosi i chi

Mesur eich golwg

Eich helpu i roi cynnig ar gymhorthion golwg priodol, a rhoi rhai addas i chi ar bresgripsiwn

Trafod eich cyflwr/cyflyrau llygaid â chi

Darparu gwybodaeth am gymorth, addysg, cyflogaeth a gwasanaethau gwirfoddol yn eich ardal, lle y bo'n berthnasol

Eich atgyfeirio at weithwyr iechyd proffesiynol a gwasanaethau cymorth eraill, os oes angen.

Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru
Low Vision Service Wales

Ble y gallaf ddod o hyd i'r gwasanaeth hwn am ddim?

Er mwyn dod o hyd i bractis yn eich ardal chi sy'n cynnig Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru:

Ffoniwch

01267 248793

Ewch i

www.eyecare.wales.nhs.uk

Gofynnwch i'ch Optegydd neu'ch Optometrydd lleol eich cyfeirio

Chwiliwch am logo Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru yn ffenestr yr Optegydd/Optometrydd

Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru
Low Vision Service Wales

Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru
Low Vision Service Wales

Gwybodaeth Ddewisol